# Penodi Uwch Safonwr
# Cymhwyster TGAU (Cymwys ar gyfer y Dyfodol) Newydd Hanes

Mae angen Uwch Safonwr ar gyfer TGAU Hanes. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gydweithio'n agos â'r tîm Hanes bod gofynion y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Disgwylir iddo ef/iddi hi gyfrannu at hyfforddiant safonwyr, gan arwain y broses gymedroli yn y gynhadledd safonwyr. Disgwylir iddo ef/iddi hi hefyd gyfrannu at gyflwyniad y rhaglen DPP a bod yn rhan o'r tîm yn ystod y broses ddyfarnu.

**Cyfrifoldebau Uwch Safonwr**

Mae'r Uwch Safonwr yn gyfrifol am osod y tasgau a gosod y safonau ar gyfer safoni gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol gan y canolfannau. Rhaid i'r Uwch Arholwr wneud y canlynol:

- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi, lle bo angen, arweinwyr tîm a safonwyr;
- ysgrifennu briffiau Asesiadau Di-arholiad i'w rhyddhau i ganolfannau yn flynyddol
- mynychu a goruchwylio'r Cynadleddau Safonwyr a/neu'r cyfarfodydd dethol eitemau safoni fel y bo'n briodol, a hefyd i fynychu cyfarfodydd dyfarnu yn ôl gofynion CBAC;
- goruchwylio gwaith aelodau ei d/thîm ac archwilio safonau marcio'r safonwyr drwy broses samplu;
- monitro safonau holl safonwyr yr uned hon, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw safonwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, ac i weithredu'n briodol er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb;
- goruchwylio a chymeradwyo adroddiadau i ganolfannau fydd wedi'u paratoi gan y safonwyr;
- paratoi adroddiad cyffredinol ar yr uned, gan ddilyn ffurf y bydd CBAC wedi'i phennu;
- bod ar gael i wneud gwaith marcio adolygol ar bob sesiwn yn ôl gofynion CBAC mewn perthynas ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol.

Mae swydd Uwch Safonwr yn ganolog i weithrediad y cymhwyster, ac oherwydd hynny ar gyfer y pwnc hwn mae angen ymrwymo cryn dipyn o amser i'r gwaith. Mae angen i Uwch Safonwr fod ar gael am o leiaf tri diwrnod y flwyddyn a allai fod yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Bydd tâl rhyddhau o ganolfannau ar gael. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i fynychu cynhadledd y safonwyr (un diwrnod) a'r cynhadledd dyfarnu yng Ngorffennaf (un diwrnod). Efallai y bydd gofyn i Uwch Arholwyr wneud cyflwyniadau mewn digwyddiadau DPP CBAC hefyd.



Made for Wales.
Ready for the world.

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- **gradd yn y pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn**
- **profiad asesu ac addysgu perthnasol**
- **profiad rheoli pobl**
- **llythrennedd cyfrifiadurol, gan allu gwneud defnydd hyderus o amrywiaeth o feddalwedd**
- **y gallu i weithio'n dda o dan bwysau a bodloni terfynau amser**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Paula Morgan ar ebost paula.morgan@wjec.co.uk .
Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **9 Rhagfyr 2024.**

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewn gofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Safonwr TGAU (CBAC) Hanes Uned 4** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds | neu | Rabina Chowdhury |
| rob.reynolds@wjec.co.uk | | rabina.chowdhury@wjec.co.uk |
| 02920 265 050 | | 02920 265 309 |